# Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg

**Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**


Eich enw: Lyn Williams

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):Cyfoeth Naturiol Cymru

e-bost/rhif ffôn:
lyn.williams@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Eich cyfeiriad: Swyddfa'r Llywodraeth, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion.


Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **31 Hydref 2017** i:

Tîm Bil y Gymraeg
Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

## Rhan 1: Hybu'r Gymraeg

**Cwestiwn 1 –** Ym mharagraffau 49–54, rydym wedi amlinellu'r rôl yr ydym yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru ei chwarae i hybu'r Gymraeg, h.y. swyddogaethau'r Llywodraeth i hybu'r Gymraeg. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**, gan gynnwys p'un a oes meysydd y dylid eu hychwanegu neu eu tynnu o'r rhestr ym mharagraff 53.

**Cwestiwn 2** – Yn Nhabl 1, rydym wedi amlinellu'r adnoddau mewn perthynas â'r swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg yr ydym o'r farn y dylent fod ar gael i unrhyw gorff neu gyrff sy'n helpu yn y gwaith o hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 3 –** A ydych chi'n cytuno â'r opsiwn a ffefrir gennym (Opsiwn 4), sef un corff i fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg ac am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

Os ydych yn anghytuno, nodwch pa opsiwn (gan gynnwys opsiynau nad ydym wedi'u trafod yn y Papur Gwyn) y dylem ei ystyried yn eich barn chi.

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 4** – Rydym wedi seilio ein dewis, sef un corff, ar sail eglurder, cydnawsedd a gwerth am arian. A ydych chi'n cytuno â'n sail resymegol?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 5** – Pa faterion perthnasol eraill y dylem eu hystyried wrth wneud ein cynnig terfynol ynghylch pa gorff neu gyrff ddylai hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Dim sylw |

**Cwestiwn 6** – A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar Ran 1 y Papur Gwyn?

| |
|---|
| Dylai unrhyw newid arfaethedig adeiladu ar y gwaith y mae'r Comisiynydd wedi'i wneud wrth weithredu, rheoleiddio a hyrwyddo'r Safonau Cymraeg. Mae rôl y Comisiynydd wedi chwarae rhan bwysig yn llwyddiant gweithredu'r Safonau ac wedi helpu i gael dealltwriaeth gyhoeddus o statws swyddogol yr iaith a rhyddid siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith os dymunant wneud hynny. Mae canfyddiadau diweddar yn dangos bod gwasanaethau Cymraeg a'u hansawdd yn gwella. Dylai unrhyw newid arfaethedig adeiladu ar y gwaith da hwn a chanolbwyntio ar barhau i wella ansawdd, cysondeb ac argaeledd gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg. |

## Rhan 2: Llywodraethiant ac atebolrwydd

**Cwestiwn 7** – Ym mharagraffau 93–95, rydym wedi nodi rhai gofynion cyffredinol yn ymwneud â threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd y corff. Beth yw eich barn chi am y gofynion cyffredinol hyn, ac a oes yna fesurau monitro a ffrwyno eraill a ddylai fod yn weithredol ar y corff arfaethedig?

**Sylwadau ategol**

Bydd llywodraethiant y corff yn gofyn am graffu annibynnol ar bolisïau a phenderfyniadau er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder cyflawni amcanion er budd cyfleoedd cynyddol i ddefnyddio'r iaith ym mhob maes cyhoeddus a phreifat, gan roi dewis ieithyddol go iawn i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru.

**Cwestiwn 8** – A ydych chi'n cytuno â'r opsiwn a ffefrir gennym (Opsiwn 3), sef i sefydlu Comisiwn y Gymraeg i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |

**Sylwadau ategol**

Mae rôl y Comisiynydd yn dal i fod yn weddol newydd ers ei sefydlu yn 2012. Ers hynny bu newid cadarnhaol yn y defnydd o'r iaith Gymraeg wrth i'r Safonau gael eu gweithredu. Mae'r Comisiynydd wedi gweithio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru ac wedi annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'u hiaith a mynegi'u barn pan nad oeddent yn teimlo'u bod yn gallu gwneud hynny. Mae'r Comisiynydd wedi ennill hyder y cyhoedd a gan weithio hyd braich oddi wrth, ac yn annibynnol o, Lywodraeth Cymru, wedi sicrhau bod pob sefydliad cyhoeddus gan gynnwys Llywodraeth Cymru yn cynyddu eu gwasanaethau Cymraeg ac yn cydymffurfio â'r Safonau. Gallai fod gwrthdaro buddiannau o bosibl pe byddai unrhyw opsiwn a ffefrir yn cael ei ystyried i fod â pherthynas waith / atebolrwydd agosach â Llywodraeth Cymru. Mae unrhyw newidiadau mewn tueddiadau ieithyddol yn cymryd cryn dipyn o amser ac mae nod Llywodraeth y Cynulliad o gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged uchelgeisiol, un a fydd yn gofyn am osod rhagor o Safonau a rheoleiddio llym er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu defnyddio'u sgiliau ieithyddol ym mhob agwedd o'u bywydau ac nid wrth ymdrin â'r sector cyhoeddus yn unig.

**Cwestiwn 9** – Beth yw eich barn chi am y dadansoddiad rydym wedi'i ddarparu sy'n cefnogi ein dewis ni, sef Opsiwn 3? A oes unrhyw ystyriaethau eraill y dylem eu hystyried wrth wneud unrhyw gynnig terfynol?

Gweler y sylwadau uchod

**Cwestiwn 10** – A ydych chi'n credu bod Opsiwn 3 yn diogelu annibyniaeth y Comisiwn arfaethedig yn ddigonol yng nghyd-destun arfer swyddogaethau ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | ☐ | **Ansicr** | ✓ |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 11** – A oes unrhyw faterion ychwanegol i'r rhai a restrir ym mharagraffau 121–122 y dylem eu hystyried wrth ystyried trefniadau i sefydlu'r Comisiwn arfaethedig?

| Oes | ☐ | Nac oes | ✓ | Ansicr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 12** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i symud y gofyniad ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth ar gyfer y Gymraeg o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'r Bil y Gymraeg newydd?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Dim sylw |

**Cwestiwn 13** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Cynulliad ar strategaeth y Gymraeg bob pum mlynedd yn lle bob blwyddyn?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'n cymryd nifer o flynyddoedd o gynllunio a chynnydd ieithyddol cyn i unrhyw newid yn y defnydd o iaith ddod i'r amlwg, felly byddai adrodd bob pum mlynedd yn rhoi canlyniadau mwy mesuradwy na'r rhai a ddarperir yn flynyddol. |

**Cwestiwn 14** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun yn nodi sut y bydd yn gweithredu'r strategaeth bob pum mlynedd yn lle bob blwyddyn?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Fel y nodwyd yn sylwadau 13 uchod. |

**Cwestiwn 15** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg a rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru geisio cyngor gan y Comisiwn arfaethedig, sef Comisiwn y Gymraeg?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Dim sylw |

**Cwestiwn 16** – A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar Ran 2 y Papur Gwyn?

| |
|---|
| Dylai unrhyw newid adeiladu ar y gwaith da a wnaed yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn fwy cyson yn y sector cyhoeddus ledled Cymru a dylai'r gwaith hwn barhau i ymgyrraedd i'r sector preifat lle bo hynny'n rhesymol. |

## Rhan 3: Safonau'r Gymraeg

**Cwestiwn 17** – Rydym yn cynnig y dylid mabwysiadu model diwygiedig o'r Safonau (Opsiwn 2) fel y ffordd orau o sicrhau hawliau pobl i dderbyn gwasanaethau Cymraeg. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**, gan gynnwys (os yn berthnasol) unrhyw ddiwygiadau pellach yr hoffech eu gweld i'r system bresennol, neu unrhyw ddulliau gweithredu eraill y dylem eu hystyried yn eich barn chi.

| |
|---|
| Mae'r Safonau wedi rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg a dylid cymryd gofal nad yw unrhyw fodel diwygiedig a fabwysiedir yn gwanhau statws yr iaith a rhyddid siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'u hiaith ym mhob agwedd o'u bywydau. Dengys yr adroddiad sicrwydd a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd yn ddiweddar bod gwasanaethau Cymraeg yn cynyddu a bod eu hansawdd yn gwella o ganlyniad i weithredu'r Safonau. Dylai unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol adeiladu ar y gwaith da a wnaed eisoes ac ehangu'r gwaith hwn yn wir ysbryd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef y dylai person allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |

**Cwestiwn 18** – Rydym wedi seilio'r cynnig rydym yn ei ffafrio i ddiwygio'r Safonau (Opsiwn 2) ar sail yr eglurder, y capasiti ar gyfer gwella a'r costau newid sy'n gysylltiedig â phob opsiwn (paragraffau 163–165). A ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**, gan gynnwys (os yn berthnasol) unrhyw ffactorau eraill y dylem eu hystyried wrth lunio unrhyw gynigion terfynol.

| |
|---|
| Dylai unrhyw newid sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn parhau i wella ac i gynyddu mewn meysydd a fydd o fudd i'r cyhoedd, a gydag amser, weithio tuag at fwy o gysondeb yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ledled Cymru lle bo hynny'n rhesymol. |

**Cwestiwn 19** – A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r dosbarthiadau presennol o Safonau, a gwahaniaethu rhwng 'Safonau' (a fyddai'n berthnasol i wasanaethau) a 'dyletswyddau cynllunio ieithyddol' (a fyddai'n berthnasol i ddyletswyddau corfforaethol)?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae hyn angen ystyriaeth a chynllunio gofalus. Mae cynllunio ieithyddol yn dal yn eithaf newydd a bydd cyrff angen cefnogaeth, arweiniad a hyfforddiant yn y maes hwn er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau. Bydd angen monitro agos er mwyn sicrhau bod cyrff yn datblygu a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg eu gweithlu fel eu bod yn gallu gweithio'n ddwyieithog yn y dyfodol. |

**Cwestiwn 20** – A ydych chi o'r farn y dylid cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn y ddeddfwriaeth newydd fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ | Ansicr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Gall hyn helpu sefydliadau sydd â blaenoriaethau busnes o ran y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, wrth ddatblygu neu wella systemau/gwasanaethau sydd eisoes ar waith. Yn debyg i'r Cynlluniau Gweithredu sydd mewn Cynlluniau Iaith Gymraeg. |

**Cwestiwn 21** – Oes yna unrhyw faterion eraill y dylid, yn eich barn chi, eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth newydd fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol?

| Oes | ☐ | Nac oes | ✓ | Ansicr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 22** – A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Comisiwn arfaethedig bwerau cyffredinol i gynnal ymchwiliadau i sut mae cyrff yn cyflawni eu dyletswyddau o ran y Gymraeg, a fyddai'n cynnwys y Safonau a'r dyletswyddau cynllunio ieithyddol?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Byddai angen i unrhyw gynnig a gytunwyd fonitro sut mae cyrff yn gweithredu eu dyletswyddau a chynnig cymorth ac arweiniad lle mae posibilrwydd o beidio â chydymffurfio. |

**Cwestiwn 23** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai'r Comisiwn arfaethedig fonitro a chefnogi cyrff mewn perthynas â'u dyletswyddau cynllunio ieithyddol, yn hytrach na'u gorfodi?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Fel y sylwadau yng nghwestiwn 22 |

**Cwestiwn 24** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i roi cyfrifoldeb am osod Safonau ar gyrff i Lywodraeth Cymru, p'un ai drwy hysbysiad cydymffurfio neu drefn arall?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 25** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai pob un o'r rheoliadau i wneud Safonau fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn cyn gofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Dim sylw |

**Cwestiwn 26** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu Ymchwiliadau Safonau?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Dylid diwygio'r system gosod Safonau. Dylid gosod safonau yn unol â'r ymrwymiadau y mae sefydliadau wedi'u gwneud yn y Cynlluniau, gyda mesurau mewn lle er mwyn i'r gwasanaethau hynny gynyddu a datblygu. Gydag amser, bydd hyn yn cynyddu |

| |
|---|
| gwasanaethau Cymraeg sefydliadau, a dylai'r mesurau gael eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cynyddu ac yn gwella. |

**Cwestiwn 27** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid rhoi pwerau i gyhoeddi codau ymarfer neu ganllawiau mewn perthynas â'r Safonau i Lywodraeth Cymru?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Byddai codau ymarfer neu arweiniad yn ddefnyddiol pan fo gofyn am i gyrff sy'n gweithredu gwahanol Safonau weithio gyda'i gilydd, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rhan berthnasol o'u hysbysiadau cydymffurfio'u hunain. |

**Cwestiwn 28** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gael pŵer i osod Safonau ar yr holl gyrff mewn sector yn uniongyrchol drwy reoliadau, heb fod angen hysbysiad cydymffurfio neu drefn arall gyffelyb?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**, gan gynnwys eich barn ar y materion y dylem eu hystyried wrth lunio Safonau i'w gosod yn uniongyrchol ar gyrff o fewn sector, p'un a ddylai cyrff unigol barhau â'r hawl i herio Safon sydd wedi'i gosod arnynt, a ph'un a ddylid cael proses ymgynghori fwy trwyadl.

| |
|---|
| Ar gyfer cyrff sy'n darparu gwasanaeth/dyletswydd debyg, ar ôl ymgynghori byddai'r cyrff perthnasol hynny yn eu tro yn cynnal eu hymgynghoriad mewnol eu hunain er mwyn canfod eu gallu i gydymffurfio â'r Safonau arfaethedig. Yn y rhan fwyaf o achosion, gallai ymgynghori gyda'r sector ar gynnig amlinellol ddileu'r angen am her pan osodir y Safonau. |

**Cwestiwn 29** – Pa ffactorau y dylid eu cymryd i ystyriaeth neu pa weithdrefn y dylid ei dilyn er mwyn sicrhau bod y broses o osod Safonau ar Lywodraeth Cymru yn deg a thryloyw?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| O dan y system gyfredol, mae cael Comisiynydd sy'n annibynnol o Lywodraeth Cymru wedi sicrhau bod y Safonau a osodwyd yn deg ac yn dryloyw. Os ystyrir opsiwn arall, er mwyn sicrhau proses deg a thryloyw heb unrhyw wrthdaro buddiannau, dylid ystyried bod corff annibynnol megis y Cynulliad a awgrymwyd yn goruchwylio'r broses a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn dilyn yr un gweithdrefnau â phob corff arall. Hefyd byddai angen i'r Cynulliad fonitro cydymffurfiaeth. |

**Cwestiwn 30** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid gorfod delio â chwynion drwy weithdrefn gwyno'r corff perthnasol cyn y caiff y Comisiwn arfaethedig, sef Comisiwn y Gymraeg, ymchwilio i fethiant honedig?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Dylai sefydliad gael cyfle i ddatrys unrhyw gŵyn yn uniongyrchol gyda'r achwynydd yn yr un modd ag unrhyw gŵyn arall a dderbynnir gan y corff, gan ddilyn y prosesau a'r gweithdrefnau cwyno sydd ganddynt mewn lle. Byddai hyn yn caniatáu i'r corff weithio gyda'r achwynydd gan ddatrys y broblem ac adeiladu ymddiriedaeth a pherthynas gwsmer dda ar gyfer y dyfodol. Byddai hyn hefyd yn caniatáu i'r corff ddatrys unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth a adroddwyd mewn byr amser a rhoi mesurau ar waith yn fewnol er mwyn atal y posibilrwydd o hyn yn digwydd eto.<br>Mae yna gostau i'w hystyried o ran Comisiynydd y Gymraeg a'r corff dan sylw wrth ymchwilio i gŵyn a allai gymryd sawl mis i'w datrys o ran amser ac arian. |

**Cwestiwn 31** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig fod yn rhaid i gyrff gadw at weithdrefn gwyno sydd wedi'i chymeradwyo, fel y Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae gan bob corff cyhoeddus weithdrefn gwyno ar waith sydd naill ai'n debyg neu'r un fath â'r model a grybwyllwyd uchod. |

**Cwestiwn 32** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig mai dim ond os yw o'r farn fod yr achos honedig o dorri Safon neu weithdrefn gwyno yn un ddifrifol y dylai'r Comisiwn arfaethedig gael cymryd camau gweithredu pellach mewn perthynas â chŵyn?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**, gan gynnwys unrhyw sylwadau ar ein diffiniad o 'achos difrifol' ym mharagraff 219.

| |
|---|
| Dylai achwynydd allu codi materion sydd heb eu datrys neu faterion difrifol gyda'r Comisiwn arfaethedig a, thrwy drafodaeth gyda'r corff perthnasol, dylai mesurau gael eu rhoi ar waith er mwyn cwrdd â gofynion y Safon(au) dan sylw. Ar gyfer materion sy'n parhau i fod heb eu datrys, neu Safonau sy'n cael eu torri'n rheolaidd neu eu torri'n ddifrifol, dylai'r Comisiwn arfaethedig gymryd y camau priodol yn unol â'r tramgwydd dan sylw. |

**Cwestiwn 33** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ganiatáu i'r Comisiwn arfaethedig gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Cytuno ar gyfer achosion difrifol o dorri'r Safonau. |

**Cwestiwn 34** – A ydych chi'n cytuno fod y camau gweithredu a ddisgrifir ym mharagraff 225 yn darparu amrywiaeth effeithiol o gamau gorfodi?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**, gan gynnwys unrhyw syniadau ynghylch camau gorfodi eraill a wrthodwyd neu nad ydynt wedi cael eu hystyried yn y Papur Gwyn.

| |
|---|
| Dim sylw pellach |

**Cwestiwn 35** – Ar hyn o bryd, mae gan y Comisiynydd bwerau i osod dirwy sifil o hyd at £5,000 ac, mewn rhai amgylchiadau, i ofyn am orchymyn llys i'w gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid cadw'r pwerau hyn?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**, gan gynnwys unrhyw sylwadau ynghylch y ddirwy sifil uchaf y dylai'r Comisiwn arfaethedig allu ei gosod (os o gwbl).

| |
|---|
| Nid cosb sifil yn gymaint, ond y cyhoeddusrwydd negyddol a'r niwed i enw da'r corff o fethu â darparu gwasanaeth i gwsmeriaid yn eu dewis iaith. |

**Cwestiwn 36** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw rôl y Tribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniadau'r Comisiwn arfaethedig ynghylch gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Dim sylw |

**Cwestiwn 37** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai'r Tribiwnlys hefyd ymdrin ag apelau yn erbyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar gorff?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

| |
|---|
| Dim sylw |

**Cwestiwn 38** – Rydyn ni’n cynnig cyflwyno cam cyntaf gorfodol ar gyfer y Tribiwnlys mewn perthynas ag apelau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn arfaethedig ynghylch gorfodi Safonau. Byddai'r cam cyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Tribiwnlys roi caniatâd ar y sail bod siawns rhesymol y bydd y cais yn llwyddo neu pan fo rheswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed. A ydych chi’n cytuno â’n cynnig?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Dim sylw |

**Cwestiwn 39** – A ydych chi o'r farn y dylai'r cam cyntaf gorfodol arfaethedig fod yn gymwys i apelau yn erbyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar gorff?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ansicr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 40** – A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar Ran 3 y Papur Gwyn?

| |
|---|
| Dim sylw pellach |

## Rhan 4: Cwmpas y cyrff sy’n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth y Gymraeg

**Cwestiwn 41** – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddileu'r cyfyngiadau yn y Mesur fel bod Llywodraeth Cymru'n meddu ar y pŵer i wneud Safonau'n gymwys i unrhyw gorff o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Dim sylw |

**Cwestiwn 42** – A ydych chi'n cytuno â’n cynnig mai dim ond mewn perthynas â'r gwasanaethau y maent yn eu cyflenwi i'w cwsmeriaid y dylai busnesau yn y sector preifat fod yn agored i orfod cydymffurfio â Safonau?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**, gan gynnwys eich barn ynghylch unrhyw gyfyngiadau y dylid eu rhoi ar y pwerau i osod Safonau ar fusnesau preifat.

| |
|---|
| Gyda nod Cymraeg 2050 o gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg, bydd angen dod â busnesau’r sector preifat i mewn i’r drefn Safonau, yn enwedig y busnesau preifat hynny sy'n darparu gwasanaethau i ganran fawr o'r boblogaeth. Bydd hyn yn helpu gyda’r gallu i wneud busnes gyda'r busnesau hyn yn Gymraeg a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, sydd eto’n un o nodau Cymraeg 2050. |

**Cwestiwn 43** – A ydych chi'n cytuno â’n cynnig mai dim ond fel rhan o becyn ehangach o weithgarwch sy'n hybu'r Gymraeg ac yn cynyddu ymwybyddiaeth ohoni y dylid gosod Safonau ar fusnesau preifat?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Gweler y sylwadau uchod |

**Cwestiwn 44** – Os rhoddir pwerau i Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar unrhyw gorff o fewn cymhwysedd y Cynulliad, a ydych chi o'r farn y dylai Safonau gael eu gosod ar unrhyw gorff neu sector nad yw ar hyn o bryd o fewn cwmpas deddfwriaeth ynghylch y Gymraeg?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ansicr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Dylai'r holl gyrff sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus ac sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru fod o fewn cwmpas deddfwriaeth yr iaith Gymraeg. Bydd hyn hefyd yn helpu i unioni’r holl wasanaethau cyhoeddus er mwyn darparu gwasanaeth Cymraeg mwy cyson.

**Cwestiwn 45** – A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar Ran 4 y Papur Gwyn?

Dim sylw pellach

## Rhan 5: Asesu effaith ein cynigion

**Cwestiwn 46** – Rydym wedi asesu effaith ein cynigion ar gydraddoldeb, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a'r Gymraeg. A oes gennych chi sylwadau ar unrhyw un o'r asesiadau hyn?

| |
|---|
| Byddai'r cynigion yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer yr unigolion hynny sy'n dymuno defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Byddai'r cynigion yn helpu i normaleiddio'r defnydd o'r iaith fel ei bod yn cael ei chlywed a'i gweld yn ysgrifenedig mewn mwy o leoedd ledled Cymru, gan helpu i wneud Cymru'n wlad wirioneddol ddwyieithog ar gyfer y dyfodol. |

**Cwestiwn 47** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn ein Papur Gwyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddai, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Fel y sylwadau uchod |

**Cwestiwn 48** – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid yr opsiynau arfaethedig:

i) fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) fel nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Fel y sylwadau uchod |

**Cwestiwn 49** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

| |
|---|
| Dim sylw pellach |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐